



Joint Council for
Qualifications

**Egwyddorion ar gyfer diogelu plant ac
oedolion agored i niwed**

Diwygiwyd – Hydref 2017



Cynnwys

Cyflwyniad	2
Rolau a chyfrifoldebau	3
Yn ôl diffiniad, beth yw plentyn?	5
Beth yw cam-drin plant?	5
Beth yw Rhwystro?	5
Deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol	5
Yn ôl diffiniad beth yw oedolyn agored i niwed?	6
Beth yw 'gweithgaredd a reoleiddir'	6
Egwyddorion penodol diogelu plant ac oedolion agored i niwed	7

Cyflwyniad

Egwyddorion penodol diogelu plant ac oedolion agored i niwed

Mae egwyddorion penodol diogelu yn cynnig safon ar gyfer arfer da. Maen nhw'n codi ymwybyddiaeth ac yn helpu sefydliadau i wybod beth mae angen iddyn nhw ei wneud i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed, ac i leihau risgiau y gellir eu hosgoi. Lluniwyd yr egwyddorion hyn i helpu diogelu plant ac oedolion agored i niwed sy'n cymryd asesiadau a gynigir gan aelodau'r Cyd Gyngor Cymwysterau (CGC). Maen nhw hefyd yn sicrhau bod cyrff dyfarnu yn cymryd camau positif mewn ymateb i bryderon diogelu a nodwyd yn ystod eu gwaith.

Yn y ddogfen hon mae'r naw safon o ddiogelu i blant ac oedolion agored i niwed y mae'r CGC wedi cytuno i'w mabwysiadu. Cawsant eu seilio ar ganllawiau cyfredol y Llywodraeth. Gall gorff dyfarnu ddewis cael prosesau ychwanegol sy'n gweddu i'w hamgylchiadau penodol.

I bwy mae'r ddogfen hon yn berthnasol?:

Mabwysiadodd cyrff dyfarnu'r CGC yr egwyddorion hyn. Dylai staff yn y cyrff dyfarnu eu darllen a'u rhoi ar waith, yn enwedig y rheini sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed.

Gall fod yn ddefnyddiol hefyd i ganolfannau ddarllen y ddogfen hon i ddeall sut mae'r cyrff dyfarnu wedi datblygu eu gweithdrefnau.

Nid bwriad y ddogfen hon yw sicrhau bod cyrff dyfarnu'r CGC yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu a Rhwystro perthnasol. Bwriedir iddi roi ddarparu arweiniad ynghylch y materion sydd i'w hystyried gan gyrrff dyfarnu yn eu polisiau a'u gweithdrefnau perthnasol.

Pwy yw'r cyrff dyfarnu?

Saith corff dyfarnu sy'n aelodau o'r CGC:

- Assessment and Qualifications Alliance (AQA)
- City & Guilds
- Council for the Curriculum Examinations and Assessment (CCEA)
- Oxford, Cambridge and RSA Examinations (OCR)
- Pearson
- Scottish Qualifications Authority (SQA)
- CBAC

Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu safonau, rheoliadau a chanllawiau cyffredin ar gyfer arholiadau ac asesiadau ar draws y DU. Lluniwyd y safonau polisi hyn yn rhan o'r llinyn parhaus hwn o waith.

Rolau a Chyfrifoldebau

Beth mae cyrff dyfarnu yn ei wneud?

Prif nod cyrff dyfarnu yw darparu cymwysterau a chymorth i ddiwallu anghenion unigolion a'r gymdeithas. Wrth gyflwyno'r cynhyrchion a'r gwasanaethau hyn, rôl y cyrff dyfarnu hefyd yw sicrhau lles ymgeiswyr sy'n cymryd eu hasesiadau.

Yn gefndir i bob tystysgrif a gyhoeddwyd mae nifer o weithgareddau, cynhyrchion a gwasanaethau sy'n allweddol o ran darparu cyrsiau ac yn y pen draw o ran ymgeiswyr yn cyflawni eu tystysgrifau. Staff parhaol a gyflogir gan gyrff dyfarnu sy'n cynnal rhai o'r gweithgareddau; pobl sydd wedi'u contractio mewn amrywiaeth o ffyrdd fydd yn gwneud rhai o'r lleill. At bwrpasau'r polisi hwn, cyfeirir at y sawl dan contract, ac nad ydynt wedi'u cyflogi'n barhaol gan gyrff dyfarnu, fel 'cynrychiolwyr'.

Mae tri maes allweddol lle gellir codi materion diogelu mewn perthynas â gwaith y cyrff dyfarnu:

- ymddygiad staff parhaol neu gynrychiolwyr cyrff dyfarnu tuag at ymgeiswyr, plant eraill ac oedolion sy'n agored i niwed y maent yn dod i gysylltiad â nhw, boed hynny wyneb yn wyneb neu ar-lein;
- priodoldeb deunyddiau asesu;
- datgeliad ymgeisydd o wybodaeth ynglŷn â'u lles personol, neu les un o'u cyfoedion, i'r staff parhaol neu gynrychiolydd y corff dyfarnu, p'un a yw'n uniongyrchol neu drwy ymatebion ysgrifenedig neu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cyfrifoldeb y corff dyfarnu yw sicrhau bod ei holl staff parhaol a'i gynrychiolwyr yn ymwybodol o faterion diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, a bod gweithdrefnau yn eu lle yn eu maes penodol o arbenigedd a'u bod yn cael eu hyfforddi yn unol â hynny. Mae'n rhaid i'r corff dyfarnu gael dulliau effeithiol ar waith i gofnodi ac i fonitro materion diogelu a sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Os nad yw achosion yn ymwneud ag ymddygiad aelod o staff parhaol neu gynrychiolydd, gall fod angen cyflwyno adroddiad i'r ganolfan a/neu'r awdurdod diogelu perthnasol i'w ddatrys. Yn yr achosion hyn mae'n rhaid i'r corff dyfarnu fod yn fodlon bod y materion wedi'u cydnabod a gofynnir am gadarnhad o hyn gan y sefydliad y cyfeirir ato.

Bydd ymchwiliad ffurfiol yn cael ei gynnal i **achosion yn ymwneud ag ymddygiad staff parhaol corff dyfarnu** a byddant yn cael eu trin yn unol â'r gweithdrefnau disgyblu wedi'u dogfennu, yn cynnwys trafodaeth â'r awdurdodau diogelu priodol os yn briodol.

Cynhelir ymchwiliad ffurfiol hefyd i **achosion yn ymwneud ag ymddygiad cynrychiolwyr cyrff dyfarnu**, yn cynnwys trafodaeth â'r awdurdodau diogelu statudol priodol os yn briodol, a bydd hynny'n cael ei wneud yn unol â thelerau ac amodau eu contractau.

Rolau a Chyfrifoldebau

Beth mae canolfannau'n ei wneud?

Mewn canolfan y bydd ymgeisydd yn astudio, hyfforddi ac yn cael ei asesu.

Mae cyrff dyfarnu'n ymwybodol iawn o faterion diogelu a byddant yn gwneud popeth o fewn eu cylch gwaith i sicrhau diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed. Fodd bynnag, gan fod canolfannau yn dod i gysylltiad mwy uniongyrchol ag ymgeiswyr, ganddyn nhw mae'r cyfrifoldeb sylfaenol dros les eu hymgeiswyr, gan symud materion ymlaen a'u datrys a chodi ymwybyddiaeth yn gyffredinol.

Mae cyrff dyfarnu a chanolfannau yn cyfathrebu yn uniongyrchol â'i gilydd yn barhaus. Felly, mae'r berthynas gontractiol sy'n arwain at ymgeiswyr yn cymryd asesiadau rhwng y corff dyfarnu a chanolfan. **Nid oes perthynas gontractiol uniongyrchol rhwng corff dyfarnu ac ymgeisydd neu grŵp o ymgeiswyr (ac eithrio yn achos SQA, sy'n dosbarthu tystysgrifau yn uniongyrchol i ymgeiswyr).**

I fanteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd yr holl fesurau i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed sy'n dilyn cymwysterau, mae'n hanfodol bod cyrff dyfarnu yn gweithio mewn partneriaeth â chanolfannau. Bydd hyn yn sicrhau dealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau y naill a'r llall.

Mae rolau a chyfrifoldebau canolfannau **yn Lloegr** yn cael eu diffinio yn:

Keeping children safe in education – Statutory guidance for schools and colleges (Adran Addysg, Medi 2016) a *Keeping children safe in education for school and college staff* (rhan 1)
<https://www.gov.uk/government/publications/keeping-children-safe-in-education--2>

Mae rolau a chyfrifoldebau canolfannau **yng Nghymru** yn cael eu diffinio yn *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/keeping-learners-safe/?jsessionid=E73E88496ED38B7D52D7637D53474FE7?skip=1&lang=cy>

Mae rolau a chyfrifoldebau canolfannau **yng Ngogledd Iwerddon** yn cael eu diffinio yng Nghyhoeddiadau'r Adran Addysg ar Faterion Diogelu Plant Cyffredinol –

<http://www.deni.gov.uk/index/support-and-development-2/child-protection-safeguarding/publications-and-guidance-for-schools.htm>

Yn ôl diffiniad, beth yw plentyn?

Plentyn yw unrhyw berson nad yw wedi cyrraedd 18 mlwydd oed.

Beth yw cam-drin plant?

Math o gamdriniaeth plentyn. Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn drwy beri niwed, neu drwy fethu â gweithredu i atal niwed. Efallai fod plant yn cael eu cam-drin mewn teulu neu mewn lleoliad sefydliadol neu gymunedol gan y bobl maen nhw'n eu hadnabod neu, yn fwy prin, gan eraill (e.e. drwy'r rhyngwyd).

Efallai eu bod yn cael eu cam-drin gan oedolyn neu oedolion, neu blentyn

neu blant eraill. Cam-drin plant yw cam-drin corfforol, cam-drin rhywiol,

esgeulustod neu gam-drin emosiynol.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn nogfen yr Adran Addysg *Keeping children safe in education – Statutory guidance*.

Beth yw Rhwystro?

Menter y Llywodraeth yw Rhwystro sy'n amddiffyn plant rhag y risg o radicaleiddio a dylid ei ystyried yn rhan o'r dyletswyddau diogelu ehangach, ac mae'n debyg o ran natur i amddiffyn plant rhag niweidiau eraill (e.e. cyffuriau, gangiau, esgeulustod, ecsbloetio rhywiol), p'un a yw'r rhain yn dod o'r tu mewn i'w teulu neu yn gynnyrch dylanwadau o'r tu allan.

Deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol

Mae sawl darn o ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n berthnasol i waith y cyrff dyfarnu mewn perthynas â diogelu plant:

- Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006
- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) – www.gov.uk/government/organisations/disclosure-and-barring-service
- Strategaeth atal – https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/97976/prevent-strategy-review.pdf
- Deddfau Plant a chanllawiau perthnasol wrth weithio mewn ysgolion, canolfannau arholi neu fel arall gyda phlant – gweler gwefan yr Adran Addysg <https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-education> Nodwch er nad yw darpariaethau Deddfau Plant yn uniongyrchol gymwys i gyrff dyfarnu, maen nhw'n ffurfio rhan o fframwaith diogelu ehangach y Llywodraeth ar gyfer plant. Yn unol â hynny, mae'n bwysig i gyrff dyfarnu fod yn ymwybodol o gynllun cyffredinol y Deddfau hynny a'r canllawiau cysylltiedig.
- **Cymru'n unig** – Gellir dod o hyd i wybodaeth am ddeddfwriaeth a chanllawiau Diogelu yng Nghymru ar wefan Llywodraeth Cymru: <http://gov.wales/topics/health/socialcare/safeguarding/?skip=1&lang=cy> a Dysgu Cymru: <http://learning.gov.wales/resources/browse-all/keeping-learners-safe/?jsessionid=E73E88496ED38B7D52D7637D53474FE7?skip=1&lang=cy>
- **Gogledd Iwerddon yn unig** – Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf (GI) 2007, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012.

Yn ôl diffiniad beth yw oedolyn agored i niwed?

Mae oedolyn agored i niwed yn cael ei ddiffinio fel person sy'n ddeunaw mlwydd oed neu'n hŷn y darperir 'gweithgaredd wedi'i reoleiddio' iddo yn ymwneud ag oedolion agored i niwed (fel y nodir yn Neddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006).

Beth yw 'gweithgaredd a reoleiddir'?

Term eang yw 'gweithgaredd a reoleiddir' sy'n cael ei gymhwyso'n wahanol i blant ac oedolion agored i niwed. Mae'n debygol o gynnwys:

- gweithgareddau penodol sy'n ymwneud â phlant ac oedolion agored i niwed (e.e. addysgu, hyfforddiant, cyfarwyddyd, gofal neu oruchwyliaeth) sy'n digwydd yn rheolaidd (fel rheol o leiaf unwaith yr wythnos), neu ar sail ddwys (mwy na thri diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 30 diwrnod), neu dros nos (rhwng 2am a 6am lle mae'r gweithgaredd yn rhoi'r cyfle i'r person gael cysylltiad wyneb yn wyneb â phlant neu oedolion agored i niwed); **neu**
- gwaith penodol mewn lle penodol sy'n rhoi'r cyfle am gysylltiad rheolaidd â phlant neu oedolion agored i niwed (e.e. ysgol); **neu**
- cyngor neu arweiniad, sy'n cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu gan fwyaf ar gyfer plant ac sy'n ymwneud â'u lles corfforol, emosiynol neu addysgol; **neu**
- swyddi penodol arbennig (e.e. llywodraethwr ysgol) a swyddogaethau (e.e. gwarchod plant blynyddoedd cynnar).

Mae gweithgaredd yn annhebygol o fod yn 'weithgaredd a reoleiddir' os yw'n cael ei oruchwyllo.

Ni ddylai gweithwyr cyrff dyfarnu, a'r rheini sy'n ymddwyn fel cydweithwyr neu gynrychiolwyr corff dyfarnu, gymryd rhan mewn 'gweithgaredd a reoleiddir' gan **na ddylid** eu gadael ar eu pen eu hunain gydag ymgeiswyr.

Rhaid i'r ganolfan sicrhau bob amser bod oedolyn cyfrifol yn bresennol gyda phersonél corff dyfarnu, yn cynnwys cydweithwyr a chynrychiolwyr, bob amser.

Egwyddorion penodol diogelu plant ac oedolion agored i niwed

Mae'r cyrff dyfarnu wedi archwilio eu hamgylcheddau gwaith (gan gynnwys gyda phwy maen nhw'n gweithio a sut, pryd, ble ac o dan pa amgylchiadau mae staff parhaol neu gynrychiolwyr yn gweithio ac yn rhyngweithio gydag ymgeiswyr) a'r cynhyrchion a'r gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig.

Caiff y naw egwyddor sy'n dilyn eu cydnabod fel camau hanfodol yn natblygiad polisi diogelu i blant ac oedolion agored i niwed. Trefnwyd yr egwyddorion yn y ddogfen hon yn y drefn y dylid ymdrin â hwy.

Mae ansawdd cyffredinol y polisi diogelu yn dibynnu ar y canlynol:

- cyflawniad da;
- gweithrediad da; a
- rheolaeth dda.

Egwyddor 1 Polisi diogelu

Bydd gan gorff dyfarnu bolisi diogelu ar waith.

Egwyddor 2 Gweithdrefnau a systemau

Mewn corff dyfarnu bydd gweithdrefnau adrodd yn ôl a mecanweithiau ymateb pendant yn eu lle sy'n sicrhau bod cyfrifoldebau diogelu yn cael eu diwallu. Bydd hyn yn cynnwys Swyddog Diogelu dynodedig. Ar yr un pryd, cyn belled â phosibl o ystyried y cyfrifoldebau diogelu hynny, bydd corff dyfarnu yn sicrhau bod rhwymedigaethau o gyfrinachedd (tawelu meddyliau'r oll dan sylw y bydd y mater yn cael ei drin yn sensitif ac yn briodol) yn cael eu parchu.

Egwyddor 3 Rhwystro

Bydd corff dyfarnu yn mabwysiadu mesurau i leihau'r perygl o gam-drin gan unrhyw berson y mae'n ei gyflogi i ymgymryd ag unrhyw weithgarwch mewn perthynas â'i gymwysterau.

Egwyddor 4 Codau ymddygiad

Bydd gan gorff dyfarnu *Godau Ymddygiad* ar waith sy'n gosod safonau ymddygiad derbyniol ac arfer da ar gyfer staff a chynrychiolwyr.

Egwyddor 5 Gweithredu

Bydd corff dyfarnu yn rhoi canllawiau clir i staff parhaol a chynrychiolwyr ar sut y bydd y polisi diogelu yn cael ei addasu a'i gymhwyso.

Egwyddor 6 Cydraddoldeb a chynhwysiant

Yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb, wrth arfer ei swyddogaeth o ddatblygu a dyfarnu cymwysterau, rhaid i gorff dyfarnu roi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael â gwahaniaethu ac i sicrhau bod gweithdrefnau yn cael eu cymhwyso'n gyfartal i bob plentyn ac oedolyn sy'n agored i niwed.

Egwyddor 7 Cyfathrebu

Bydd polisi diogelu corff dyfarnu ar gael i'r cyhoedd. Adolygir y polisi yn rheolaidd, gan ystyried sylwadau gan randdeiliaid priodol.

Egwyddor 8 Addysg a hyfforddiant

Bydd corff dyfarnu yn darparu hyfforddiant cychwynnol ac atgoffa a chyfleoedd datblygu priodol i staff a chynrychiolwyr.

Egwyddor 9 Gweithredu a monitro

Bydd corff dyfarnu yn monitro gweithrediad eu polisi diogelu.

Crynodeb

I gloi, bwriad y naw egwyddor hwn yw ceisio sicrhau y gall cyrff dyfarnu ddatblygu a hyrwyddo arfer sy'n diogelu plant ac oedolion agored i niwed rhag camdriniaeth ac ecsbloetio. Maen nhw hefyd yn ceisio bodloni gofynion rheoleiddiol a deddfwriaethol.

Cyfrifoldeb y staff dynodedig o fewn y cyrff dyfarnu yw'r egwyddorion hyn o ddiogelu. Bydd y CGC yn sicrhau bod yr arbenigwyr hyn yn adolygu'r egwyddorion bob tair blynedd a/neu pryd bynnag y ceir newid sylweddol yn y corff dyfarnu neu o ran deddfwriaeth, polisi neu ganllawiau diogelu perthnasol.